

<b>Teitl:</b> <b>Title:</b>	Strategaeth Cynnwys Dysgwyr 2021 -2024 Learner Involvement Strategy 2021 -2024
<b>Fersiwn:</b> <b>Version</b>	2
<b>I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?</b> <b>Who does this Policy Relate to?</b>	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr

#### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	<a href="#">Strategaeth Cynnwys Dysgwyr 21 - 24 EIA Cam 1 Learner Involvement Strategy 21 - 24 EIA Stage 1</a>
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i>  <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i>  An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

#### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<b>Perchennog y Ddogfen:</b> <b>Document Owner:</b>	<i>Teitl swydd / Job title</i> Rheolwr Profiadau Dysgwyr a Menter/ Learner Experience & Enterprise Manager		
<b>Ymgynghoriad / Consultation:</b>	Myfyrwyr trwy Bwyllgorau Myfyrwyr a gweithgareddau Llais Myfyrwyr/Students via Student Committees and Student Voice activities		
<b>Dyddiad cymeradwyo / Date Approved</b>	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	<i>Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a'r Iaith Gymraeg</i> <i>Head of Corporate Communications and Welsh Language</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	08/12/21	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	16/2/2022
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
Corff Llywodraethu / Governing Body:	6/4/2022		
<b>Dyddiad Adolygu:</b> <b>Review Date:</b>	08/12/24		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)  
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff  
Please number each section and paragraph

## Tabl Cynnwys

1. Pwrpas	2
2. Cyflwyniad	2
3. Nod ac Amcanion y Strategaeth Cynnwys Dysgwyr 2021-2024	3
4. Deilliannau ar gyfer 2021-2024	3
5. Dibenion Llais Myfyrwyr	4
6. Cynrychiolwyr y Dysgwyr	5
7. Cyfarfodydd Llais Myfyrwyr	5
8. Galluogi holl ddysgwyr i gymryd rhan	7
9. Cynorthwyo dysgwyr i Ddod yn Arweinwyr	8
10. Atodiad A - Cyfathrebu gyda Myfyrwyr	8

## Strategaeth Cynnwys Dysgwyr 2021 -2024

### 1. Pwrpas

Pwrpas y strategaeth hon yw gosod cyfeiriad strategol clir o gynnwys myfyrwyr yng Ngholeg Cambria a dangos tystiolaeth o hynny.

### 2. Cyflwyniad

Mae Coleg Cambria yn credu'n gryf fod cynnwys barn y dysgwyr a chynnig cyfle iddynt fod yn uniongyrchol ynghlwm ag asesu a llunio eu profiad dysgu eu hunain, yn cael effaith sylweddol ac effeithiol ar lunio prosesau gwella ansawdd y Coleg a chynyddu llwyddiannau'r myfyrwyr. Mae Coleg Cambria yn credu bod gan ddysgwyr swyddogaeth allweddol mewn gweithdrefnau hunanasesu, gwneud penderfyniadau a rheoli gweithrediadau.

Dogfennau allweddol sy'n llunio'r strategaeth hon:

- Deddf Addysg (1994)
- Strategaeth Cynnwys Dysgwyr Llywodraeth Cymru (2010)
- Myfyrwyr yn Llundain Sgiliau Ôl-16 (NUS, 2017)
- [Cyfansoddiad Myfyrwyr Coleg Cambria](#)
- [Strategaeth Ymgysylltu â Rhieni](#)
- [Strategaeth Addysgu a Dysgu](#)
- [Rhaflen Botensial Uwch](#)

### 3. Nod ac Amcanion y Strategaeth Cynnwys Dysgwyr 2021-2024

**Nod: Nod Llais Myfyrwyr Cambria yw gwella bywyd a dysgu i fyfyrwyr. Mae'r holl fyfyrwyr yr un mor bwysig â'i gilydd ac mae ganddynt gyfle i gymryd rhan.**

Mae Cynllun Strategol Gweledigaeth 2020 Cambria yn dweud y bydd y Coleg yn parhau i *'sichau cynnal diwylliant sy'n rhoi'r dysgwr yn gyntaf a chyfle cyfartal ar draws yr holl wasanaethau a swyddogaethau, hyrwyddo llais y dysgwr i ddarparu'r profiad gorau posibl'*. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gynnwys barn y dysgwyr a chynnig cyfleoedd amrywiol iddynt fod yn uniongyrchol ynghlwm ag asesu a llunio eu profiad dysgu eu hunain, gan ddatblygu ein myfyrwyr fel dinasyddion effeithiol mewn cymuned ehangach.

### 4. Deilliannau ar gyfer 2021-2024

Ers ffurfio Coleg Cambria yn 2013 ac ers datblygu'r Strategaeth Cynnwys Dysgwyr gyntaf, mae'r Coleg wedi gweithio'n galed i ddatblygu proses Llais Myfyrwyr cynhwysol, sy'n galluogi holl ddysgwyr i leisio'u barn.

#### a. **Sichau bod Rhagor o Ddysgwyr yn Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Llais Myfyrwyr**

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Erbyn 2024 bydd y nifer o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn unrhyw agwedd o weithgareddau Cambria yn cynyddu 5% bob blwyddyn**

Mae adolygiad o Lais Myfyrwyr 2017 yn dangos bod angen cynnwys nifer ehangach o ddysgwyr ar lefel sylfaen. Tra bod systemau a phrosesau y broses bresennol yn creu grŵp bach o fyfyrwyr sy'n arwain sy'n dangos lefelau o arweinyddiaeth a dinasyddiaeth gadarn iawn, dylai'r Coleg ystyried sut y gallai annog grŵp ehangach o ddysgwyr, rhai nad ydynt efallai yn y coleg yn gorfforol, ond sy'n fyfyrwyr Cambria sydd angen cael eu cynrychioli, er mwyn cymryd rhan ac arwain newid. Yr unig ffordd o gyflawni hyn yw defnyddio dulliau cyfryngau digidol a gweminarau a fforymau ar-lein. Wrth i Goleg Cambria dyfu, mae'r nifer o ddysgwyr proffesiynol rhan amser, addysgu uwch a phrentisiaethau uwch yn cynyddu. Felly mae angen i'r Strategaeth Cynnwys Dysgwyr ar gyfer y cyfnod canolig i hir dymor, ddatblygu rhagor o hyblygrwydd ac ystwythder er mwyn ymgysylltu â nifer ehangach o ddysgwyr (nid dim ond dysgwyr llawn amser addysg bellach) mewn nifer ehangach o weithgareddau Llais Myfyrwyr.

**b. Sicrhau bod Rhagor o Ddysgwyr yn Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Cyfoethogi Sy'n Cael Eu Harwain gan Fyfyrwyr**

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Erbyn 2024 dylai'r arolwg rhieni ddangos bodlonrwydd o 95% bod gan y Coleg amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi sydd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer dysgwyr**

Byddai llawer o ddysgwyr yn hoffi datblygu eu sgiliau arwain yn rhagor a chymryd rhan fwy gweithredol mewn gwella'r amgylchedd dysgu a'r 'profiad coleg' i'r holl ddysgwyr. Dylai pob dysgwr 'wneud atgofion' yn ystod eu hamser yn y Coleg. Mae hyn yn golygu y dylai pob myfyriwr gael amser gwerthfawr, pleserus a bythgofiadwy lle maent yn gwneud ffrindiau ac yn cael profiadau newydd. Mae hyn yn gyfle delfrydol i ddysgwyr mwy abl a thalentog datblygu amrywiaeth eang o sgiliau, i ddatblygu gweithgareddau cyfoethogi sy'n cael eu harwain gan fyfyrwyr a chwarae rhan weithredol mewn pwyllgorau sy'n berthnasol i brofiad dysgwr, cydraddoldeb ac amrywiaeth a gweithgareddau elusennol.

**c. Datblygu Rhagor o Gyfleoedd i Fyfyrwyr sy'n Arwain**

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Erbyn 2024 dylai'r Coleg gael rhaglen Myfyrwyr sy'n Arwain sy'n cynnwys pob agwedd o ddarpariaeth**

Mae angen i weithgareddau Llais Myfyrwyr roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau arwain ac ymddwyn fel modelau rôl ac arweinwyr i fyfyrwyr.


Mae hyn yn cynnwys gwahodd dysgwyr i:

- gynorthwyo mewn nosweithiau rhieni a nosweithiau cyngor
- siarad yn gyhoeddus am eu profiadau yn y coleg ag ymwelwyr allanol a rhieni
- cynorthwyo gyda gweithgareddau diwrnodau ymsefydlu a diwrnodau blasu wrth ymddwyn fel cyfaill i fyfyrwyr newydd a darpar fyfyrwyr
- cynorthwyo gyda chystadleuaeth sgiliau a gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys WorldSkills, ac ysbrydoli myfyrwyr i gymryd rhan
- cynrychioli'r Coleg mewn gweithgareddau myfyrwyr allanol, gan gynnwys cynadleddau NUS
- ymddwyn fel arweinydd i fyfyrwyr a chynrychioli dysgwyr eraill mewn cynadleddau cyngor y safle a chyfarfodydd corff llywodraethu

**d. Datblygu Sgiliau Dinasyddiaeth Weithgar Dysgwyr yn Gynyddol**

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Erbyn 2024 dylai'r holl ddysgwyr fod yn gyfarwydd gyda'r diagram isod a gallu mapio'u sgiliau Dinasyddiaeth**

Mae Strategaeth Llais Myfyrwyr ar gyfer 2021-2024 yn rhoi llwybr clir o sut y gallai sgiliau dysgwyr gael eu datblygu'n gynyddol wrth ddilyn y camau canlynol:



Mae angen addysgu ac ystyried hyn yn weithredol mewn sesiynau Anogwr Cynnydd fel rhan o'u Rhaglen Tiwtoriaid Personol Cenedlaethau'r Dyfodol yn Cambria.

## 5. Dibenion Llais Myfyrwyr

### 5.1 Hunanasesu a Gwella Ansawdd

Mae'r strategaeth Cynnwys Dysgwyr hon yn chwarae rhan hanfodol, yn y broses hunanasesu a gwella ansawdd. Fel rhan o raglen Llais Myfyrwyr y Coleg, bydd holl ddysgwyr a rhieni'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o arolygon sy'n cael eu gwerthuso yn erbyn data cenedlaethol. Defnyddir yr arolygon hyn yn i hunanasesu darpariaeth ac i greu gweithredoedd gwella. Adroddir arnynt mewn cyfarfodydd rheolwyr uwch a chyfarfodydd pwyllgor corff llywodraethu. Mae bodlonrwydd cyffredinol o'r arolwg blynyddol i ddysgwyr yn ffurfio 10 canlyniad cyffredinol Cambria gyda dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt gyda'r Corff Llywodraethu ac mae'n rhan holl bwysig o'r cytundeb myfyrwyr.

### 5.2 Sgiliau Dinasyddiaeth

Dylai cyfranogiad mewn gweithgareddau Cynnwys Dysgwyr gael ei weld fel cyfle allweddol i ddysgwyr gymryd rhan mewn Dinasyddiaeth Weithredol a phrosesau democrataidd gyda phrosesau ethol ar gyfer swyddogaethau myfyrwyr a datblygu cyfarfodydd a phwyllgorau sydd â strwythur, canlyniadau a chyfrifoldebau.

Mae dysgwyr yn cael eu hannog i arwain ar agendâu cyfarfodydd ac i gadeirio cyfarfodydd sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr. Byddwn yn darparu cymorth annibynnol, petai angen hynny, i alluogi dysgwyr i lunio rhaglenni ar gyfer cyfarfodydd sy'n cael eu harwain ganddynt. Bydd y dysgwyr yn ethol cadeirydd sefydlog o'u plith ar gyfer cyfarfodydd a byddwn yn parchu egwyddor atebolrwydd sydd wedi datblygu mewn sefydliadau dysgwyr. Bydd arweinwyr dysgwyr nad ydynt yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd neu'n cam-gynrychioli eu cymheiriaid yn agored i bleidlais o ddiffyg ffydd y dysgwyr eraill trwy broses a nodwyd yng nghyfansoddiad Cymdeithas y Myfyrwyr neu gorff cysylltiedig.

### 5.3 Dysgwyr yn Dylanwadu ar Sgiliau Ôl-16

Dylai dysgwyr sydd wedi'u cyflogi cael eu hannog i wneud sylwadau ar eu prentisiaethau a'u haddysg dechnegol ac i weithio gyda'u cyflogwyr i sicrhau eu bod yn cyfrannu at ddyluniad rhaglenni i fodloni eu hanghenion cyflogaeth. Mae hyn yn unol â Myfyrrwyr yn Llundain Sgiliau Ôl-16 (NUS, 2017).<sup>1</sup>

## **6. Cynrychiolwyr y Dysgwyr**

### **6.1 Cynrychiolwyr Dosbarth a Cyngor Safle**

Mae pob grŵp dysgwyr o bob maes cwricwlwm y Coleg, yn enwebu hyd at ddau gynrychiolydd sy'n cael eu comisiynu i leisio barn y grŵp yng nghyfarfodydd timau'r cyrsiau. Bydd cynrychiolwyr dosbarth yn cyfarfod mewn cyfarfodydd cynrychiolwyr dosbarth.

Bydd Cynrychiolwyr Dosbarth yn ethol cynrychiolwyr ar gyfer y Cyngor Safle, a fydd yn ffurfio aelodaeth myfyrrwyr o'r Cynghorau Safle ar gyfer pob safle'r coleg. Fel cynrychiolwyr, mae'r cynghorau hyn yn ffurfio rhan o'r gorfforaeth Llais Myfyrrwyr ac yn bwydo Senedd Llais Myfyrrwyr.

Bydd cynrychiolwyr Cyngor Safle pob safle yn ethol Is-lywydd Myfyrrwr ar gyfer y safle hwnnw.

### **6.2 Llywyddion Myfyrrwyr**

Bydd y gorfforaeth myfyrrwyr cyfan yn dewis dau Lywydd Myfyrrwr, a bydd eu cyfnod yn y swydd yn 1 flwyddyn. Bydd yr etholiadau Llywyddion Myfyrrwyr hyn yn cael eu cynnal trwy fewnwyd myfyrrwyr ac mae pob myfyrrwr yn gymwys i bleidleisio.

### **6.3 Pwyllgor Gweithredol**

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn i drafod materion sy'n codi o gyfarfodydd cyngor safle ac i ddatblygu dulliau strategol ar gyfer meysydd pryder neu ddatblygu cyffredin sydd gan fyfyrrwyr. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys Swyddogion Llais Myfyrrwyr, mae pob un yn gyfrifol am wahanol ddyletswyddau ar draws y safleoedd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am gynnal Llais y Myfyrrwyr o ddydd i ddydd yn unol â'r cyfansoddiad hwn ac unrhyw atodlenni, unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cyngor Safle, mewn Senedd neu refferendwm.

### **6.4 Llywodraethwyr Myfyrrwyr**

Dewisir 2 lywodraethwr myfyrrwyr gyda chyfuniad o etholiad a chyfweliadau i gynrychioli buddiannau'r myfyrrwyr ar fwrdd y Llywodraethwyr.

## **7. Cyfarfodydd Llais Myfyrrwyr**

Bydd strwythur y cyfarfodydd cynnwys dysgwyr yn datblygu sgiliau dysgwyr iddynt allu cyflwyno eu safbwyntiau mewn dadl sydd wedi'i threfnu, gan gynrychioli eu cyfoedion a datblygu'r sgiliau i eirioli, herio a datrys problemau i ddatblygu datrysiadau creadigol.

Er mwyn cadw uniondeb gweithgareddau Llais Myfyrrwyr ac i wella cynhwysiant, bydd y datblygiadau canlynol yn cael eu cydlynu gan y Swyddog Ymgysylltu â Dysgwyr:

### **7.1 Fforymau Wyneb yn Wyneb (mae'n bosib ymuno'n rhithwir erbyn hyn):**

---

<sup>1</sup><https://www.nus.org.uk/PageFiles/12238/Students%20shaping%20post%2016%20skills%20-%20executive%20summary.pdf>

## Cyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr

Mae angen i'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr/Dosbarth ar gyfer pob dosbarth gasglu adborth, pryderon, awgrymiadau a syniadau gan y myfyrwyr yn eu dosbarth neu grŵp tiwtor. Bydd y rhain yn cael eu codi trwy'r Sianeli Llais Myfyrwyr isod a chyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr unwaith y mis.

## Cyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr - Is-Gyfarwyddiaeth / Cyfarwyddiaeth

Yn aml mae gofyn i'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr i gyfarfod fel is-gyfarwyddiaeth / cyfarwyddiaeth unwaith pob tymor o leiaf. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn aml ym mhresenoldeb Is-bennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac maent yn cynnwys Safbwyntiau'r Dosbarth. Mae pob grŵp dysgwyr o bob maes cwricwlwm y coleg, yn enwebu hyd at ddau gynrychiolydd sy'n cael eu comisiynu i leisio barn y grŵp yng nghyfarfodydd timau'r cyrsiau (neu glystyrau cyrsiau) trwy broses 'Classroom Viewpoints'. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynrychioli cyfle gwych i ddysgwyr gymryd rhan a rhannu eu safbwyntiau.

## Cyfarfodydd Cyngor Safle

Mae'r Cynghorau Safle hyn yn cynnwys Cynrychiolwyr Safle o bob maes dysgu, uwch aelod staff y safle, aelod o'r Pwyllgor Gwaith a Llywodraethwr y Coleg. Gall aelodau'r Cyngor Safle gynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, y Pennaeth, Is-Benaethiaid Cynrychioliadol, Penaethiaid Cynorthwyol neu Gyfarwyddwyr Cwricwlwm. Mae'r Cynghorau Safle yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn. Yn y cyfarfodydd hyn, mae myfyrwyr yn paratoi papurau ac yn eu cyflwyno, mae materion sy'n ymwneud â phrofiad dysgwyr yn cael eu trafod ac mae'r myfyrwyr yn cael y cyfle i holi cwestiynau i'r Pennaeth am feysydd pryder, gyda'r cwestiynau'n cael eu hanfon at y Pennaeth cyn y cyfarfod. Fel cynrychiolwyr, mae'r cynghorau hyn yn ffurfio rhan hanfodol o'r gorfforaeth Llais Myfyrwyr ac yn ymddwyn fel fforwm ymgynghori i godi materion i fwydo i Senedd Llais Myfyrwyr. Bydd cynrychiolwyr Cyngor Safle pob safle yn ethol **Is-lywydd Myfyriwr** ar gyfer y safle hwnnw.

**Is-grwpiau / grwpiau ffocws** - pan fydd mater yr hoffai myfyrwyr ei drafod yn fanylach yn cael ei adnabod, bydd is-grŵp yn cael ei ddatblygu. Gall hyn fod ar gyfer pwrpas tasg a gorffen, ar gyfer dibenion monitro rheolaidd (e.e. arlwyo) a gall y grwpiau hyn fod yn weithredol yn fyr dymor neu'n hir dymor. Mae'r grwpiau hyn yn cael eu creu gan y Pwyllgor Gweithredol ac yn cael eu hadrodd i gyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr ac mae'r nodiadau'n cael eu rhoi ar wefan Llais Myfyrwyr.

Mae **Senedd Myfyrwyr blynyddol** yn cynnwys cynrychiolwyr dosbarth ac maent yn cyfarfod unwaith y flwyddyn, gan ddod â'r holl Gynrychiolwyr Myfyrwyr, cynrychiolwyr Cyngor Safle a Llywyddion/Is-lywyddion Myfyrwyr o bob safle at ei gilydd. Bydd Llywyddion/Llywodraethwyr Myfyriwr yn cynorthwyo gyda chadeirio'r cyfarfodydd Senedd hyn a bydd yr agenda yn cael ei llunio gyda'u mewnbwn.

Mae rhai penderfyniadau sy'n effeithio ar brofiad dysgu'r dysgwr, yn cael eu gwneud y tu allan i gymuned y coleg gan y llywodraeth, Adran Addysg a Sgiliau, gweithredwyr Cludiant Cyhoeddus, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Gyrfa Cymru (Cymru) ac eraill. Bydd Cymdeithas y Myfyrwyr, gyda chydgytundeb y dysgwyr, fel arfer yn ymgysylltu ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS). Bydd pob dysgwr yn cael eu hannog i gymryd rhan yn ei strwythurau ac mewn cyrff eraill sy'n cynrychioli dysgwyr yn uniongyrchol. Bydd y coleg yn galluogi dysgwyr i ddylanwadu a chymryd rhan yn y rhain trwy eu cynorthwyo gyda'r gweithdrefnau caniatâd, teithio ac iechyd a diogelwch angenrheidiol. Pan mae ymgynghoriadau cyhoeddus sy'n effeithio ar fyfyrwyr o ran eu dysgu neu eu profiad yn y coleg, bydd dysgwyr yn cael eu hannog i drefnu ymateb, wrth fesur barn dysgwyr trwy arolygon neu yn Senedd y Myfyrwyr.

## 7.2 Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu Digidol:

Mae defnydd o fforymau digidol a'r cyfryngau wedi galluogi i Lais Myfyrwyr yng Ngholeg Cambria gael ei glywed yn ystod cyfnodau clo a dysgu o bell/ hunan ynysu. Maent ar gael i holl fyfyrwyr Addysg Bellach, Addysg Uwch a Dysgu yn y Gwaith. Gall cyfarfodydd gael eu hyrwyddo, eu recordio a'u cadw ar y fewnwyd myfyrwyr.

- Mae gan Lais Myfyrwyr Coleg Cambria ei wefan ei hun ar y rhyngwyd myfyrwyr: <https://www.cambria.ac.uk/student-voice/>. Mae'r wefan hon yn darparu llwyfannau i ddysgwyr Addysg Bellach, Addysg Uwch a Dysgu yn y Gwaith i leisio'u barnau, eu syniadau a'u hawgrymiadau i Goleg Cambria er mwyn gwella'n barhaus a hyrwyddo gweithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd yn y Coleg. Mae'r llwyfan hon wedi hyrwyddo a chynnal clybiau ar-lein, cymdeithasau a chyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn llwyddiannus yn ystod cyfnodau clo a chyfnodau o ddysgu o bell, gan ddarparu cyswllt cymdeithasol amhrisiadwy i fyfyrwyr ac ymdeimlad o berthyn.
- Mae newyddlenni rheolaidd yn cael eu rhannu â myfyrwyr a staff i roi gwybod am ddigwyddiadau, gweithgareddau a chyfleoedd sy'n codi yn y Coleg ac o fewn ein cymunedau cymdeithasol. Mae Ap y Coleg hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyrchu gwybodaeth yn hawdd.
- Mae Twitter, Facebook ac Instagram yn cael eu defnyddio i roi gwybod am ddigwyddiadau hefyd, gan weithio'n agos gyda'r adran Marchnata. Mae grwpiau Facebook caeedig wedi cael eu creu i annog cyfathrebu rhwng cynrychiolwyr dosbarth ac maent wedi bod yn ddefnyddiol wrth gynllunio cyfarfodydd ar draws y coleg. Mae'r rhain yn cael eu cynnal a'u goruchwylio gan y Swyddog Ymgysylltu â Dysgwyr. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu dros e-bost i gynrychiolwyr dosbarth, anogwyr bugeiliol, tiwtoriaid personol a staff ar draws y coleg.
- Mae Fforwm Addysg Uwch ar ffurf Google Community i fyfyrwyr gael cyfathrebu eu syniadau a'u hawgrymiadau.

## 7.3 Gweithgareddau Sy'n Cael Eu Harwain Gan Fyfyrwyr

Bydd y Swyddog Ymgysylltu â Dysgwyr yn arwain cyfleoedd datblygu i ddysgwyr gymryd rhan ynddynt a datblygu gweithgareddau cyfoethogi eu hunain. Bydd grŵp Llywio ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi sy'n cael ei arwain gan fyfyrwyr ac mae cyllid sbarduno ar gael a chymorth gan y Swyddog Ymgysylltu â Dysgwyr i ddysgwyr sy'n dymuno cychwyn clwb neu weithgaredd cyfoethogi ar gyfer dysgwyr eraill. Bydd y gweithgareddau hyn yn amodol ar gymeradwyaeth, gydag asesiadau risg yn cael eu gwneud.

Bydd cyfoethogi'n cael ei hyrwyddo'n rheolaidd i fyfyrwyr dros y fewnwyd a chyfryngau cymdeithasol a fydd ar gael ar draws bob safle, ond bydd gweithgareddau'n amrywio dros bob safle.

Bydd myfyrwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn pwyllgorau a chyfarfodydd yn y Coleg a fydd yn ehangu profiad myfyrwyr yn y Coleg. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth, gweithgareddau elusennol a llesiant.

### 1. Galluogi holl ddysgwyr i gymryd rhan

Bydd y Swyddog Ymgysylltu â Dysgwyr yn gweithio gyda'r holl ddysgwyr i greu cyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhrosesau cynnwys dysgwyr y coleg. Bydd y strategaeth hon yn creu nifer o wahanol gamau wedi'u llunio i sicrhau bod holl ddysgwyr Cambria yn cymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo:

- Dysgwyr dysgu yn y gwaith nad ydynt yn dod i'r Coleg ar gyfer gwersi
- Dysgwyr sy'n astudio trwy ddarpariaeth partner cyflwyno (wedi'i is-gontractio)



- Dysgwyr SBA a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Dysgwyr rhan amser, proffesiynol ac addysg uwch
- Dysgwyr ar gyrsiau cyswllt ysgolion
- Dysgwyr Cymraeg i Oedolion
- Myfyrwyr cymunedol sy'n mynychu lleoliadau cymunedol

Mae'r Coleg yn cefnogi dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd yn llawn a byddant yn darparu galluogwyr i unrhyw un sydd ag anawsterau gyda chymryd rhan mewn cyfarfodydd oherwydd anabledd. Mae'r Coleg hefyd wedi ymrwymo i dalu costau teithio, lle bo hynny'n briodol. Mae'n bosib ymuno â'r holl gyfarfodydd yn rhithwir trwy Google Meet. Ni ddylai dysgwyr golli unrhyw daliadau LCA os ydynt yn cael eu hethol i fynd i gyfarfodydd. Mae'r coleg wedi ymrwymo i'r egwyddor na fydd unrhyw ddysgwyr dan anfantais ariannol oherwydd eu cyfraniad at weithgareddau Cynnwys Myfyrwyr. Os bydd cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal yn ystod amser cinio, bydd y Coleg yn darparu bwyd/lluniaeth ysgafn lle bo hynny'n briodol.

Mae Coleg Cambria yn annog unrhyw ddysgwyr sy'n dymuno arwain neu gymryd rhan mewn cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Swyddog Cangen Coleg Cenedlaethol yn gweithio gyda'r Swyddog Ymgysylltu â Dysgwyr i sicrhau fod yr holl ddysgwyr yn cael cyfleoedd cyfartal i ddefnyddio'r iaith gyfathrebu a ffefrir, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg ac maent yn trefnu unrhyw anghenion cyfieithu ar gyfer holl weithgareddau Llais Myfyrwyr.

Bydd dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Llais Myfyrwyr yn cael amrywiaeth o fathodynau digidol Cambria a fydd yn darparu tystiolaeth ar gyfer CVs a geirdaon i fyfyrwyr ar gyfer addysg uwch.

## **8.1 Hyfforddiant**

Mae Cynrychiolwyr Dosbarth yn cael hyfforddiant sy'n eu cefnogi i ddeall pa gyfrifoldebau sydd ynghlwm â swyddogaeth cynrychiolydd dosbarth ac yn darparu myfyrwyr gyda sgiliau hanfodol i'w cefnogi nhw i fod yn gynrychiolydd dosbarth, gan gynnwys rhwydweithiau datblygu, cynnal cyfarfod a chynrychioli safbwyntiau dysgwyr. Gall yr hyfforddiant hwn gael ei gyrchu ar-lein hefyd.

Bydd dysgwyr sy'n ymwneud â Chynghorau Safle a Llywodraethwyr Myfyrwyr yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi i gymryd rhan yn y pwyllgorau a'r cyfarfodydd hyn yn llawn.

## **Cynorthwyo dysgwyr i Ddod yn Arweinwyr**

Bydd y Swyddog Ymgysylltu â Dysgwyr yn gweithio gyda thimau cwricwlwm a rheolwyr i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau arweinyddiaeth yn y Coleg. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhagor o swyddogaethau cyfaill myfyrwyr mewn diwrnodau rhagflas a diwrnodau ymsefydlu, cynorthwyo mewn nosweithiau cyngor a nosweithiau rhieni a datblygu cyfleoedd i ddysgwyr weithio gyda myfyrwyr eraill a'u cynorthwyo. Mae'r Coleg yn frwd i ddatblygu sgiliau myfyrwyr i ymddwyn fel llysgenhadon a chynrychiolwyr yn nigwyddiadau allanol y Coleg, gan gynnwys cynadleddau NUS.



## Atodiad A - Cyfathrebu gyda Myfyrwyr

### Strategaeth Cynnwys Dysgwyr

**Nod Llais Myfyrwyr Cambria yw gwella bywyd a dysgu i fyfyrwyr. Mae'r holl fyfyrwyr yr un mor bwysig â'i gilydd ac mae ganddynt gyfle i gymryd rhan.**

Mae gan Goleg Cambria system ardderchog ar waith i ddysgwyr gyfarfod, trafod a chyflwyno syniadau gyda'i gilydd a gyda rheolwyr ac arweinwyr y Coleg. Er mwyn gwella rhagor dros y tair blynedd nesaf mae angen i ni wneud y canlynol:

- Sicrhau bod rhagor o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llais myfyrwyr (gan gynnwys dysgwyr rhan amser, dysgu yn y gwaith a phroffesiynol)
- Sicrhau bod rhagor o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn datblygu ac arwain clybiau a gweithgareddau y tu allan i ddsbarthiadau
- Sicrhau bod rhagor o ddysgwyr yn dod yn arweinwyr i fyfyrwyr
- Cynorthwyo dysgwyr i weld y buddion o gymryd rhan mewn gweithgareddau llais myfyrwyr i'w helpu nhw i ddatblygu eu sgiliau dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth

Dyma sut y gall myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau llais myfyrwyr:

<b>Ymgysylltu</b>	<b>Cyfrannu</b>	<b>Gweithredu</b>	<b>Arwain</b>
Dangos diddordeb, cyfleu safbwynt/syniad am brofiadau yn y coleg neu ar gwrs.  Ystyried pa bethau yr hoffech weld yn y Coleg.	Mynegi barn a gwrando ar eraill. Gweithio mewn grŵp i ddatblygu syniadau.  Cymryd rhan mewn gweithgareddau a gweithio gyda myfyrwyr eraill.	Ymgymryd â swyddogaeth arweiniol. Gall hynny ymwneud â chynrychioli eraill neu weithio ar weithgaredd sy'n cael ei arwain gan fyfyrwyr. Datrys problemau, bod yn greadigol ac yn arloesol.	Ymgymryd â swyddogaeth arweiniol wrth helpu eraill (gan gynnwys myfyrwyr eraill) i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. Cynrychioli myfyrwyr ar ran y Coleg.

### **Newidiadau mawr i Gyfarfodydd yn ystod 2018-2021**

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i gyfarfod ar-lein a chyfleoedd dysgu ar-lein i fyfyrwyr, yn ogystal â chyfuno cyfarfodydd rhithwir ac wyneb yn wyneb. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu rhagor o gysylltiadau gyda dysgwyr cyflogedig a dysgu yn y gymuned yn y dyfodol.